Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# The Potteries

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**
**Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2015**

## Cyd-destun

Agorodd Ysgol The Potteries yn Nhachwedd 2012. Mae’r ystafell ddosbarth mewn tŷ mawr yn Aber-miwl, ger y Drenewydd, a cheir cartref plant yno hefyd. Mae’r cartref plant wedi’i gofrestru gydag AGGCC ar gyfer hyd at bedwar o bobl ifanc rhwng 10 a 18 oed.

Mae’r perchennog, sef CareTech UK, yn gwmni cyfyngedig sy’n berchen ar gartrefi plant ledled Cymru a Lloegr.

Sefydlwyd The Potteries fel canolfan dderbyn ac asesu. Mae’r rhan fwyaf o’r bobl ifanc yn mynychu rhaglen 16 wythnos, cyn symud ymlaen i leoliadau eraill. Lle bo’n briodol, gall pobl ifanc aros hyd at uchafswm o 26 wythnos.

Caiff pobl ifanc eu lleoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Mae’r ysgol yn darparu addysg amser llawn, gan gynnwys pynciau’r cwricwlwm cenedlaethol a’r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu. Cynigir amgylchedd dysgu priodol yn yr ystafell ddosbarth.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Dyma’r cryfderau:

- mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd ac mae’n cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol;
- mae’r pennaeth yn meithrin partneriaethau effeithiol gydag ystod o bartneriaid sy’n darparu profiad gwaith a phrofiadau dysgu cymdeithasol gwerthfawr i ddisgyblion;
- mae’r cwricwlwm yn eang ac yn darparu ar gyfer ystod eang o bynciau a gweithgareddau;
- caiff gwersi eu cynllunio’n dda i fodloni anghenion dysgu disgyblion unigol;
- mae’r ysgol yn llunio adroddiad asesu cynhwysfawr a manwl ar gyfer pob disgybl. Ceir gwybodaeth ddefnyddiol yn yr adroddiadau am hoff arddulliau dysgu, safonau perfformiad academaidd a strategaethau i gynorthwyo datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol. Defnyddir yr adroddiadau’n effeithiol i gefnogi trosglwyddo disgyblion i leoliadau newydd;
- mae staff addysg a staff cymorth gofal yn gweithio’n dda fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran presenoldeb, ymddygiad a chynnydd y disgyblion; ac
- mae bron pob disgybl yn ymgysylltu’n dda ag addysg ac yn gwneud cynnydd da o ran datblygu medrau cymdeithasol a chyfathrebu.

## Meysydd i'w datblygu

Dyma'r meysydd i'w datblygu:

- nid yw'r broses hunanarfarnu wedi'i datblygu'n ddigonol ac nid yw'n defnyddio ystod eang o randdeiliaid;
- nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn cynnwys arsylwi ar wersi. Nid yw'r broses yn nodi targedau i wella'r addysgu, ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon da ar y deilliannau y mae disgyblion yn eu cyflawni; ac
- nid yw'r perchennog yn darparu cymorth a her effeithiol i'r pennaeth o ran nodi camau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer datblygu, ac nid yw'n dwyn yr ysgol i gyfrif yn briodol am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn defnyddio tystiolaeth oddi wrth ystod eang o randdeiliaid

A2 Sicrhau bod arsylwadau o wersi yn cael eu cynnwys yn y broses hunanarfarnu a nodi targedau ar gyfer datblygiad staff a deilliannau gwell ar gyfer disgyblion

A3 Sicrhau bod y perchennog yn cefnogi'r ysgol fel ffrind beirniadol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion

## Cynnydd yn erbyn materion allweddol i weithredu arnynt a nodwyd yn ystod yr ail ymweliad cofrestru

### 1 Gwneud yn siŵr bod cynllunio yn nodi cyfleoedd yn glir ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm

### Sylwebaeth

Mae pob gwers yn dechrau gyda gweithgaredd llythrennedd sy'n cynnwys ffocws priodol ar ddatblygu medrau cyfathrebu a llefaredd. Caiff gweithgareddau rhifedd eu nodi'n glir, a chynllunnir ar eu cyfer mewn unedau gwaith i ddatblygu medrau byw'n annibynnol; er enghraifft, mae'r unedau ar faeth a pharatoi bwyd yn cynnwys gweithgareddau cyllidebu hefyd. Mae'r pennaeth yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddefnyddio TGCh i ymchwilio i wybodaeth a chyflwyno gwaith mewn gwersi ar draws y cwricwlwm.

### 2 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni achrediad am y gwaith y maent yn ei wneud

### Sylwebaeth

Mae'r ysgol yn cyflwyno unedau gwaith ar gyfer cynlluniau AQA a'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu. Mae hyn yn galluogi disgyblion i gwblhau unedau gwaith byr sy'n gallu adeiladu yn gymwysterau ar lefel mynediad a TGAU. Mae hyn yn briodol ar gyfer natur tymor byr y lleoliadau. Mae'r ysgol yn cofnodi'r unedau y bydd disgyblion yn eu cwblhau, a bydd yn rhannu'r wybodaeth gyda lleoliadau newydd. Drwy wneud hyn, darperir y cyfle ar gyfer dilyniant rhwng lleoliadau ac mae'n rhoi ymdeimlad o gyflawniad i ddisgyblion.

Mae'r ysgol wedi gwneud cais i CBAC ac yn disgwyl cofrestriad fel canolfan arholi. Yn y cyfamser, mae disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer arholiadau TGAU yn cael eu cofrestru mewn canolfan arall o fewn y sefydliad.

### 3 Sicrhau bod pob aelod o staff perthnasol yn cael hyfforddiant priodol i gynorthwyo anghenion dysgu ychwanegol disgyblion unigol

### Sylwebaeth

Darperir hyfforddiant gorfodol yn ystod eu cyfnod sefydlu ar gyfer pob aelod o staff mewn perthynas ag anhwylder ymlyniad, deallusrwydd emosiynol, diogelu ac ymddygiadau rhywiol. Mae wyth o weithwyr cymorth wedi ymrestru naill ai ar y cymhwyster lefel 2 ar gyfer gwaith cymorth mewn ysgolion, neu ar lefel 2/3 mewn cefnogi addysgu a dysgu.

Fodd bynnag, mae llawer o'r staff cymorth sy'n arwain y gweithgareddau galwedigaethol eisoes yn meddu ar gymwysterau ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb. Gan na arsylwir ar y sesiynau hyn, a chan nad yw safonau addysgu a dysgu'n cael eu harfarnu, nid yw'r ysgol yn gwybod beth yw'r meysydd datblygu unigol ar gyfer pob aelod o staff. O ganlyniad, mae'r cynllun hyfforddi'n rhy gyffredinol ac nid yw'n cysylltu'n ddigon da ag anghenion datblygu staff unigol.

## 4 Sicrhau bod gwybodaeth am anghenion dysgu disgyblion yn cael ei hystyried yn llawn adeg trosglwyddo

### Sylwebaeth

O fewn chwe wythnos i leoliad, mae’r ysgol yn llunio adroddiad asesu cynhwysfawr a manwl. Caiff yr adroddiad ei rannu gyda’r tîm amlasiantaeth, a hwn yw ffocws cynllun dysgu unigol y disgybl.

Mae’r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am hanes dysgu’r disgybl, hoff arddulliau dysgu, lefelau perfformiad a aseswyd yn y pynciau craidd a strategaethau i wella ymgysylltiad, hunanhyder a hunan-barch. Caiff yr adroddiad ei ddiweddaru’n rheolaidd gan ddefnyddio asesiadau parhaus a gynhelir gan y tîm integredig, ac mae’n darparu cymorth effeithiol ar gyfer trosglwyddo i leoliadau newydd.

## 5 Datblygu prosesau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio datblygiad

### Sylwebaeth

Mae cynllun datblygu gan yr ysgol sy’n blaenoriaethu meysydd i’w datblygu ac sy’n cysylltu adnoddau a graddfeydd amser addas â chamau gweithredu.

Fodd bynnag, nid yw’r prosesau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio datblygiad wedi’u datblygu’n ddigonol o hyd. Nid oes adroddiad hunanarfarnu cyfoes gan yr ysgol, ac nid yw’n casglu tystiolaeth o ystod ddigon eang o randdeiliaid na gweithgareddau sicrhau ansawdd. Er enghraifft, nid oes unrhyw system o arsylwadau gwersi i lywio barnau ynglŷn ag ansawdd addysgu. O ganlyniad, nid yw cynllun datblygu’r ysgol yn canolbwyntio’n ddigon da ar wella safon yr addysgu a’r deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion.

## Cydymffurfiad â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchenogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y dull o drafod cwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestru'r ysgol hon, mae'n bosibl y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau'r arolygwyr o'r arolygiad monitro blynyddol hwn ddylanwadu ar ganfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | The Potteries |
| **Rhif yr ysgol** | 6666051 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 22/10/2014 |
| **Perchennog** | CareTech UK |
| **Staff** | 1 x pennaeth |
| **Nifer y disgyblion** | 4 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth dydd yn gysylltiedig â'r cartref plant |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 01/11/2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 17/07/2014 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |

.